


Bondio metelig

Mae **bondio metelig** yn fath o fond cemegol cryf sy'n digwydd mewn metelau pur ac **aloion**. **Adeileddau tri dimensiwn enfawr** yw metelau lle mae haenau o **ïonau metel positif** wedi'u hamgylchynu gan fôr o **electronau plisg allanol dadleoledig**.



Oeddech chi'n gwybod ...?

Mae aloion alwminiwm yn cael eu defnyddio i wneud awyrennau, oherwydd eu bod yn ysgafn ac yn gryf iawn. Maent hefyd yn gallu gwrthsefyll cyrydu.




Oeddech chi'n gwybod ...?

Mae ymdoddbwyntiau a berwbwyntiau metelau yn gysylltiedig â nifer yr electronau plisg allanol. Po fwyaf yw **gwefr** yr ïon metel, y mwyaf yw nifer yr **electronau dadleoledig** a'r cryfaf yw'r bondiau.

Oeddech chi'n gwybod ...?

Dim ond symbol yr elfen yw fformiwla gemegol metel gan nad yw delit metelig yn cynnwys nifer penodol o atomau - e.e. mae sodiwm yn cael ei gynrychioli fel Na.


Aloi metel



Mae **aloion** yn gymysgedd o ddwy elfen neu ragor ac mae o leiaf un o'r elfennau hynny'n fetel. Bondiau metelig yw'r **atyniadau electrostatig cryf** rhwng yr **ïonau metel sydd â gwefr positif** a'r **electronau dadleoledig**.

Mewn **aloi**, mae'r atomau'n wahanol feintiau, sy'n ystumio'r adeiledd haenog. Mae hyn yn golygu bod angen mwy o rym i wneud i'r haenau lithro dros ei gilydd, sy'n gwneud **aloi'n galetach** ac yn gryfach na'r **metel pur**.

Metel pur



Dim ond un math o atom metel sydd mewn **metelau pur**, felly mae'r atomau wedi'u trefnu'n haenau sy'n gallu llithro dros ei gilydd. Mae hyn yn golygu eu bod yn **hydrin** - mae modd eu morthwyllo neu eu gwasgu i siâp heb iddynt dorri na chracio - ac yn **hydwyth**, felly mae modd eu tynnu allan i greu gwifrau.